**HYSBYSIAD RHYBUDDIO DILYNOL A GYHOEDDWYD YN DILYN AROLYGIAD O WASANAETHAU PLANT CYNGOR SIR POWYS**

## Diben

Rhoddir yr hysbysiad rhybuddio hwn i Gyngor Sir Powys o dan adran 151 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ac mae'n dilyn yr Hysbysiad Rhybuddio a roddwyd ar 17 Hydref 2017 ("yr Hysbysiad Rhybuddio Cyntaf").

Mae pryderon Gweinidogion Cymru ynglŷn â gallu'r awdurdod i fodloni ei ddyletswyddau'n ddigonol yn deillio o'r arolygiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o Wasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys. Yn adroddiad AGGCC ("Adroddiad Arolygu mis Gorffennaf"), amlygwyd nifer sylweddol o bryderon difrifol mewn perthynas â pherfformiad ac ansawdd gwasanaethau plant, yn ogystal â'r ffordd y'u cyflenwir, sydd wedi'u dwysáu gan yr ansefydlogrwydd o ran rheolaeth y gwasanaethau hynny, cyfarwyddo dryslyd a llywodraethu gwan.

Mae Rhan 8 o Ddeddf 2014 yn nodi'r seiliau a'r prosesau y gall Gweinidogion Cymru eu defnyddio i ymyrryd er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn cydymffurfio wrth ymgymryd â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ymyrraeth o'r fath yn gam difrifol. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod adroddiad arolygu AGGCC yn darparu digon o dystiolaeth ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio i Gyngor Sir Powys o dan Ran 8 o Ddeddf 2014.

Roedd yr Hysbysiad Rhybuddio Cyntaf yn nodi'r sail a'r rhesymau dros ymyrryd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys gyflawni'r camau gweithredu canlynol:

> (a) rhoi'r gorau i'r trefniadau presennol a phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag adran 144 o Ddeddf 2014
>
> (b) penodi Bwrdd Gwella i oruchwylio camau gweithredu'r Cyfarwyddwr, a chynnig her adeiladol a throsolwg strategol o gamau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â phob swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant
>
> (c) ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gwella ddarparu adroddiadau misol i Arweinydd y Cyngor ac anfon copi at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

(d) ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro lunio cynllun gwella sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad arolygu mis Gorffennaf

(e) cytuno ar gynllun gwella gyda'r Bwrdd Gwella gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau a'r amcanion, a darparu goruchwyliaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref.

(f) ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro roi'r cynllun gwella ar waith

(g) yn ystod cyfnod y cynllun gwella, ni ddylid cyflwyno unrhyw strwythurau sefydliadol eraill

**Camau gweithredu a gyflawnwyd gan Gyngor Sir Powys mewn ymateb i'r Hysbysiad Rhybuddio Cyntaf**

Mae Cyngor Sir Powys wedi:

- penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro
- penodi Bwrdd Gwella i oruchwylio camau gweithredu'r Cyfarwyddwr, a chynnig her adeiladol a throsolwg strategol o gamau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â phob swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant
- sicrhau bod y Bwrdd Gwella yn darparu adroddiadau misol i Arweinydd y Cyngor ac anfon copi at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
- darparu cynllun gwella a luniwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad arolygu mis Gorffennaf o fewn yr 20 diwrnod gofynnol
- dechrau rhoi'r cynllun gwella ar waith

**Y rhesymau pam fod y Seiliau dros Ymyrryd yn dal i fodoli**

Mae'r materion a ddaeth i'r amlwg yn Adroddiad Arolygu mis Gorffennaf i'w gweld yn yr Hysbysiad Rhybuddio Cyntaf. Mae Cyngor Sir Powys wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i roi sylw i'r materion hynny. Mae'r camau cadarnhaol wedi'u nodi a'u gosod mewn llythyr dyddiedig 4/1/2018 oddi wrth Bennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro.

Mae'r llythyr hefyd yn nodi nifer o feysydd lle mae angen gwelliannau o hyd i sicrhau bod y materion sydd i'w gweld yn Adroddiad Arolygu mis Gorffennaf yn cael sylw yn llawn a sicrhau nad yw'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud yn cael ei golli.

Am y rhesymau hyn, mae Cyngor Sir Powys yn methu â chynnal i safon ddigonol y swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a ganlyn:

(i) adran 17 o Ddeddf 2014 (Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy)

(ii) Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) a Rhan 4 (Diwallu anghenion) o Ddeddf 2014

(iii) adran 75 o Ddeddf 2014 (Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal)

(iv) adran 144 o Ddeddf 2014 – (Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol)

(v) adran 171 o Ddeddf 2014 – (Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol)

(vi) adran 47 o Ddeddf Plant 1989 ('Local authority's duty to investigate')

**Hysbysiad Rhybuddio Dilynol - Sail Dros Ymyrryd**

Fel yr Hysbysiad Rhybuddio Cyntaf, mae'r Seiliau dros Ymyrryd o dan adran 150 o Ddeddf 2014 y dibynnir arnynt fel a ganlyn:

<u>Sail 1 - mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol</u>

<u>Sail 3 - mae'r awdurdod lleol yn methu, neu'n debygol o fethu, â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn unol â safon ddigonol</u>

**Camau pellach sy'n ofynnol gan Gyngor Sir Powys i fynd i'r afael â'r seiliau dros ymyrryd a'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio:**

(a) Cyflwyno Cynllun Gwella diwygiedig i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGCC gynt) ac anfon copi at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru erbyn 7 Chwefror 2018 fan bellaf. Dylai'r cynllun diwygiedig gynnwys camau gweithredu y bydd yr awdurdod yn eu cyflawni i sicrhau gwelliannau -

   i. o fewn 6 mis i ddyddiad yr hysbysiad hwn
   ii. o fewn 12 mis i ddyddiad yr hysbysiad hwn
   iii. o fewn cyfnod tu hwnt i 12 mis o ddyddiad yr hysbysiad hwn hyd at fis Ionawr 2020

(b) Rhaid i'r camau gweithredu hyn roi sylw i'r canfyddiadau sy'n cael eu disgrifio yn llythyr AGGCC at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro ac atodiad un, dyddiedig 4 Ionawr 2018, a gyhoeddwyd yn dilyn ymweliad monitro AGGCC ym mis Rhagfyr 2017.

(c) Pan fydd y cynllun diwygiedig wedi'i gyflwyno, bydd atodiad i'r hysbysiad hwn yn cael ei roi gan ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cyfnodau cydymffurfio perthnasol at ddiben adran 151(2)(d).

(d) Cyflwyno fframwaith sicrwydd ansawdd i wella cysondeb a safonau arferion rheng flaen ar draws y wlad. Rhaid i'r fframwaith gael ei ddrafftio erbyn 31 Mawrth 2018 a rhaid i'r awdurdod fedru darparu tystiolaeth sylweddol i ddangos bod y fframwaith yn cael ei roi ar waith erbyn 30 Mehefin 2018.

(e) Parhau i drefnu i Fwrdd Gwella[1] oruchwylio camau gweithredu'r Cyfarwyddwr Dros Dro, a chynnig her adeiladol a throsolwg strategol o gamau'r Cyfarwyddwr Dros Dro mewn perthynas â phob swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant.

(f) Y Cyfarwyddwr Dros dro i ddarparu adroddiadau misol i'r Bwrdd Gwella ac Arweinydd y Cyngor ac anfon copi at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru.

Pan fydd cytundeb ynghylch y pecyn cymorth corfforaethol, bydd unrhyw newidiadau i'r Bwrdd Gwella yn cael eu hysbysu fel atodiad i'r hysbysiad rhybuddio hwn.

**Camau Gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â gweithredu fel sy'n ofynnol**

Os na fydd Cyngor Sir Powys yn cyflawni'r camau gweithredu sy'n cael eu nodi yn foddhaol o fewn y cyfnod a bennwyd, bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd yn fwy uniongyrchol drwy un neu fwy o'r dulliau ymyrryd y darperir ar eu cyfer dan adrannau 152-161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

---

[1]Mae Cyngor Sir Powys wedi gofyn am gymorth statudol dan Fesur Llywodraeth Leol 2009. Mae manylion y pecyn hwn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a gall hyn arwain at ddiwygio'r strwythur llywodraethu a goblygiadau i'r Bwrdd Gwella. Bydd unrhyw drefniadau diwygiedig yn cael eu cytuno gyda'r Cyngor.